



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

Cylchlythyr

www.cymru.gov.uk

Rhif y Cylchlythyr:		Dyddiad cyhoeddi:	DD / MM / BBBB
---------------------	--	-------------------	----------------

Statws:	
---------	--

Teitl:	
--------	--

Cyhoeddwyd gan:	
-----------------	--

Cyfeiriwyd at:	Anfonwch ymlaen at:

Crynodeb

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:	
	Llinell Uniongyrchol:
	E-bost:
	Gwefan:

Cynlluniau Hunanardystio Personau Cymwys: Telerau Awdurdodi ac Achredu 2013

Cefndir

1. Cyflwynwyd Cynlluniau Hunanardystio Personau Cymwys, a elwir yn Gynlluniau Personau Cymwys, gan Lywodraeth y DU yn 2002 er mwyn caniatáu i osodwyr cofrestredig (hy busnesau, cwmnïau bach neu fasnachwyr unigol yn bennaf), sy'n gymwys yn eu maes, hunanardystio bod mathau penodol o waith adeiladu yn cydymffurfio â gofynion rheoliadau adeiladu.
2. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnig manteision i ddefnyddwyr a'r diwydiant adeiladu. Mae aelodau'r cynllun yn arbed amser drwy beidio gorfod hysbysu o flaen llaw a defnyddio corff rheoli adeiladu (hy awdurdod lleol neu arolygydd wedi'i gymeradwyo o'r sector preifat) er mwyn gwirio/archwilio eu gwaith, ac mae cwsmeriaid yn elwa o weld prisiau is gan nad oes taliadau rheoli adeiladu yn ddyledus. Mae'r cynlluniau hyn yn help i fynd i'r afael â phroblem adeiladwyr anghofrestredig drwy godi safonau yn y diwydiant a galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i osodwyr cymwys. Maent hefyd yn caniatáu i gyrff rheoli adeiladu ganolbwyntio'u hadnoddau ar feysydd risg uwch.
3. Ar ôl trosglwyddo pwerau i wneud rheoliadau adeiladu i Weinidogion Cymru ar 31 Rhagfyr 2011, mae'r cyfrifoldeb dros awdurdodi Cynlluniau Personau Cymwys yng Nghymru bellach yn syrthio ar Weinidogion Cymru.
4. Mae Cynlluniau Personau Cymwys yn Lloegr yn cael eu hawdurdodi gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ac mae gofyn i'r cynlluniau ateb amodau awdurdodi sy'n cael eu gosod gan DCLG. Cyflwynodd DCLG amodau awdurdodi newydd ar gyfer pob Cynllun Personau Cymwys yn Lloegr ar 6 Mehefin 2012.
5. Datblygwyd yr amodau hyn yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2009/10 (Cymru a Lloegr) a thrafodaethau helaeth ar ôl hynny gyda gweithredwyr Cynlluniau Personau Cymwys, Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) a swyddogion yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r trafodaethau hyn fel aelodau o'r Fforwm Personau Cymwys.

6. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r un telerau awdurdodi ac achredu yng Nghymru:

- Er mwyn cynnal cysondeb, lleihau costau a darparu eglurder ar gyfer gweithredwyr y cynllun, aelodau a defnyddwyr yng Nghymru;
- I ddelio â phryderon ynghylch y ffordd yr oedd gwahanol gynlluniau'n gweithredu ac yn dehongli'r amodau;
- I hwyluso'r Fargen Werdd gan fod rhai gweithredwyr Cynlluniau Personau Cymwys yn cael eu hawdurdodi i ardystio gosodwyr y Fargen Werdd.

7. Y **newidiadau allweddol** yw:

- Pob cynllun i'w achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig i safon BS EN 45011 (safon sicrwydd ansawdd). Bydd Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig yn cadw llygad ar y cynlluniau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal y safonau. (Mae hyn hefyd yn ofynnol ar gyfer y Fargen Werdd).
- Defnyddio Dogfennau Lleiafswm Cymhwysedd Technegol newydd y sector a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol fel ffordd i aelodau'r Cynllun Personau Cymwys ddangos eu bod yn gymwys i ateb y rheoliadau adeiladu (Hefyd yn ofynnol ar gyfer y Fargen Werdd).
- Cryfhau'r hyfforddiant parhaus er mwyn i wybodaeth yr aelodau fod yn gyfredol pan fo rheoliadau adeiladu neu safonau eraill yn newid (hefyd yn ofynnol ar gyfer y Fargen Werdd).
- Cyflwyno cynllun hyblyg, ar sail risg, i gadw llygad ar aelodau'r cynllun, yn hytrach na gweithio'n gaeth i amserlen fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.
- Rheidrwydd i ddiogelu defnyddwyr yn ariannol mewn achos lle nad yw'r gwaith yn cydymffurfio ac nad oes modd i'r gosodwr ddychwelyd i'w gywiro (ee os nad yw'n masnachu bellach). (Hefyd yn ofynnol ar gyfer y Fargen Werdd).

8. Mae'r rheidrwydd i ddiogelu defnyddwyr yn ariannol yn amod newydd, sy'n golygu bod gofyn i weithredwyr cynllun roi amddiffyniad ariannol i gwsmeriaid er mwyn cywiro gwaith nad yw'n cydymffurfio â rheoliadau adeiladu, lle nad oes modd i'r gosodwr gwreiddiol wneud hynny (yn arbennig pan nad yw cwmni'n masnachu bellach yn sgil marwolaeth, ymddeoliad neu fethdaliad). Ar hyn o bryd mae gofyn i weithredwyr cynlluniau *gynnig*, ond nid darparu amddiffyniad o'r fath.

9. Er mwyn gwneud cais i redeg Cynllun Personau Cymwys newydd, neu os oes gweithredwr cynllun sydd eisoes yn bodoli am ymestyn yr awdurdodiad i gynnwys un math arall neu fwy o waith adeiladu, nad yw wedi'i awdurdodi hyd yma, rhaid i sefydliad gyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth Cymru a DCLG.

10. Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) fydd/sydd yn achredu'r gweithredwyr cynllun, gyda'r achrediad yn dod i rym ledled y DU. Felly, bydd achrediad UKAS yr un mor berthnasol yng Nghymru a Lloegr.

Gweithredu

11. Bydd y telerau awdurdodi newydd yn berthnasol yng Nghymru o'r dyddiad cyhoeddi ymlaen (Chwefror 2013).

Cyngor Pellach

12. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cylchlythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Uned Adeiladu ar 0300 062 8141 neu anfonwch e-bost at enquiries.brconstruction@cymru.gsi.gov.uk.